



ASTUDIAETH ACHOS

Creu Amgylchedd Dros Nos
Fwy Diogel gyda'r Vibe

Cefndir

Mae gan William* symudedd cyfyngedig ac, oherwydd ei anghenion iechyd, mae'n cysgu ar lawr gwaelod eu gartref mewn gwely ysbyty. Mae angen goruchwyliaeth reolaidd arno ac efallai y bydd angen cymorth arno yn ystod y nos. Ei wraig yw ei brif ofalwr ac mae'n cysgu ar y llawr uchaf. Mae ganddi golled clyw, sy'n golygu nad yw hi bob amser yn gallu clywed os bydd William yn galw am help. Roedd hyn yn achosi pryder dealladwy iddynt ill dau. Pe bai William yn cwmpo, yn teimlo'n sâl, neu angen cymorth brys yn ystod y nos, roedd risg wirioneddol na fyddai ei wraig yn ei glywed. Yn ogystal, gallai rhybuddion amgylcheddol sy'n dibynnu ar sain yn unig, megis larymau mwg, fynd heb i neb sylwi arnynt, yn enwedig pan fydd hi'n cysgu neu mewn rhan arall o'r tŷ. Roedd y cwpl yn dymuno sicrwydd y gallent barhau i fyw'n ddiogel yn eu cartref, heb gyfaddawdu ar les William na hyder ei wraig fel ei ofalwr.

Ateb

Yn dilyn asesiad trylwyr o'u hanghenion, cyflwynwyd a threialwyd y Vibe, cymorth synhwyrdd a chyfathrebu, yn llwyddiannus, gan brofi ei fod yn ateb effeithiol i wella diogelwch dros nos a darparu'r tawelwch meddwl oedd ei angen arnynt. Mae William yn gwisgo larwm personol, sy'n ei alluogi i alw am gymorth pryd bynnag y bo angen. Os caiff ei actifadu, mae'r Vibe yn hysbysu ei wraig ar unwaith drwy'r golau strôb a'r pad gobennydd dirgrynol. Mae hyn yn sicrhau ei bod yn ymwybodol yn syth, hyd yn oed os nad yw'n gallu clywed larwm clywadwy. Cysylltwyd eu synhwyrdd mwg hefyd â'r Vibe. Os bydd yn actifadu, mae'r system bellach yn darparu rhybudd cyffyrddol clir. Mae hyn yn arbennig o bwysig dros nos, gan fod William a'i wraig yn cysgu ar wahanol loriau.

Canlyniad

Mae cyflwyno'r Vibe wedi gwneud gwahaniaeth ystyrlon i William a'i wraig. Bellach, gall William alw am gymorth yn hyderus, gan wybod y bydd ei wraig yn cael ei hysbysu ar unwaith. Mae hyn yn lleihau'r risg yn sylweddol ac yn cryfhau ei ddiogelwch cyffredinol. I'w wraig, mae'r system yn darparu sicrwydd a hyder. Mae'n gallu cysgu ar y llawr uchaf gan wybod y bydd yn cael ei hysbysu os bydd William yn pwysu ei larwm personol neu os bydd y synhwyrdd mwg yn cael ei actifadu.

Wedi'i dylunio i gefnogi ei cholled clyw, mae'r Vibe yn darparu tawelwch meddwl y tu hwnt i rybuddion clywadwy, gan wella diogelwch a hyder drwy'r cartref. Yn bwysicaf oll, gall y cwpl barhau â'u trefniadau byw dewisol yn ddiogel ac yn annibynnol, gan leihau straen, cefnogi lles y gofalwr a galluogi'r ddau i deimlo'n ddiogel yn eu cartref eu hunain.

*Nid ei henw gwirioneddol

